OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 89

# Rheoliadau Fformiwla Fabanod a Fformiwla Ddilynol (Cymru) 2020

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Fformiwla Fabanod a Fformiwla Ddilynol (Cymru) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym—

(a) ac eithrio pan fo is-baragraff (b) yn gymwys, ar 22 Chwefror 2020;

(b) ar 22 Chwefror 2021 mewn cysylltiad â fformiwla fabanod a fformiwla ddilynol sydd wedi eu gweithgynhyrchu o hydrolysadau protein.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 1 mewn grym ar 22.2.2020 at ddibenion penodedig, gweler **rhl. 1(2)(a)**

**I2** Rhl. 1 mewn grym ar 22.2.2021 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, gweler **rhl. 1(2)(b)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Fformiwla Fabanod a Fformiwla Ddilynol (Cymru) 2020, Adran 1.